CYHOEDDIAD

# Cyfarfod y Bwrdd Llywodraeth Cymru: papur eitem 6

'Tystiolaeth yr Ysgrifennydd Parhaol i'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig' o gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2022.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 28 Mawrth 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 28 Mawrth 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-papur-eitem-6-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Manylion**

**Cefndir**

**Materion i'w hystyried**

**Goblygiadau adnoddau**

**Risgiau**

**Cyfathrebu**

**Materion cydymffurfiaeth cyffredinol**

**Argymhellion**

**Cyhoeddi**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-papur-eitem-6-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Manylion

## Teitl y papur

Tystiolaeth yr Ysgrifennydd Parhaol i'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig

## Diben y papur

Tynnu sylw'r Bwrdd at rai o'r gwersi sy'n deillio o'r Ymchwiliad a chynnwys tystiolaeth ysgrifenedig a llafar yr Ysgrifennydd Parhaol mewn ymateb i hynny.

## Camau sy'n ofynnol gan y Bwrdd

Mae hwn yn gyfle i'r Bwrdd fyfyrio ar y materion a nodir gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn ei dystiolaeth ac i ba raddau rydym yn ymwybodol ohonynt.

## Y swyddog sy'n cyflwyno'r papur

- David Richards

## Paratowyd / cliriwyd y papur gan

- David Richards
- Catherine Cody

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-papur-eitem-6-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Safbwynt Undebau Llafur

Nid ydym wedi ymgynghori ag Ochr yr Undebau Llafur ond byddem yn disgwyl iddi gefnogi'r materion dan sylw a'u cymeradwyo

## Dyddiad cyflwyno i'r Ysgrifenyddiaeth

24 Tachwedd 2022

# 1. Cefndir

1.1 Cafodd yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig, sy'n mynd rhagddo o hyd, yr hyn a ystyrir yn ddarnau pwysig o dystiolaeth yn ddiweddar, a oedd yn berthnasol i'w ystyriaethau.

1.2 Adroddiad manwl oedd y darn cyntaf o dystiolaeth, a oedd yn cofnodi effaith cael eu heintio'n ddiarwybod â feirws HIV ar ddioddefwyr a'u teuluoedd. Tynnodd yr adroddiad sylw at yr hyn a ystyriwyd yn amharodrwydd y GIG a'r llywodraeth i gydnabod y camgymeriadau a wnaed. Yr ail ddarn oedd adroddiad a oedd yn trafod p'un a oedd achos dros ymestyn y ddyletswydd gonestrwydd sy'n bodoli yn y GIG i'r gwasanaeth cyhoeddus hefyd, ac yn briffio'r Ymchwiliad ar God y Gwasanaeth Sifil ac Egwyddorion Nolan.

1.3 Wrth ystyried y ddau adroddiad hyn, ystyriodd yr Ymchwiliad hefyd dystiolaeth gan gyn-weinidogion Llywodraeth y DU ac eraill ynghylch y gwersi i'w dysgu. Roedd y pwyntiau a wnaed i'r Pwyllgor yn cynnwys pryderon am amharodrwydd llywodraethau i gyfaddef pan fyddant wedi gwneud camgymeriadau; amharodrwydd i ymddiheuro; peryglon meddylfryd grŵp yn mynd yn drech na meddylfryd llywodraeth, heb gael ei herio'n ddigonol; a ph'un

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-papur-eitem-6-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

a oedd Cod y Gwasanaeth Sifil yn ddigon i sicrhau didwylledd a gonestrwydd, neu a ddylai fod dyletswydd gonestrwydd statudol ar weision sifil hefyd.

1.4 Mewn ymateb i'r pryderon hyn, penderfynodd yr Ymchwiliad gyflwyno cyfres o gwestiynau penodol i Bennaeth Gwasanaeth Sifil y DU ac Ysgrifenyddion Parhaol y llywodraethau datganoledig, a'u gwahodd i sesiwn tystiolaeth lafar. Mae ymateb ysgrifenedig ein Hysgrifennydd Parhaol i'r cwestiynau a ofynnwyd wedi'i atodi i'r papur hwn, ynghyd â thrawsgrifiad o'r dystiolaeth lafar a roddwyd (tudalennau perthnasol y trawsgrifiad yw 1-118). Mae'r tudalennau'n llai na maint A4 felly mae llai o ddeunydd i'w ddarllen na'r hyn a ymddengys.

# 2. Materion i'w hystyried

2.1 Gallai fod yn fuddiol atgoffa'r Bwrdd o'r effaith y gall camau gweithredu'r llywodraeth – yn enwedig pan aiff pethau o chwith – ei chael ar fywydau unigolion. Fel y gwêl y Bwrdd, yn ei dystiolaeth ysgrifenedig a llafar, cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Parhaol yn helaeth at ei brofiad blaenorol yn y GIG a phwysigrwydd gonestrwydd wrth ddelio â dinasyddion. Tynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol sylw hefyd at ein polisi cwynion a'n hymrwymiad i ymddiheuro pan fyddwn wedi gwneud y peth anghywir.

2.2 Aeth yr Ysgrifennydd Parhaol ymlaen i sôn am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru'n Un, a'r modd rydym yn annog gonestrwydd a deialog y tu allan i Lywodraeth Cymru er mwyn osgoi meddylfryd grŵp a chaeedig. Cyfeiriodd at bwysigrwydd gwerthoedd a'r modd rydym yn ceisio eu hymgorffori yn Llywodraeth Cymru, a dywedodd wrth yr Ymchwiliad ei fod, ar y cyfan, yn teimlo bod cod y gwasanaeth sifil yn rhoi pwys digonol ar onestrwydd ac nad oedd angen ymestyn y ddyletswydd gonestrwydd i'r gwasanaeth sifil.

2.3 Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai'n

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-papur-eitem-6-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

tynnu sylw ei uwch-aelodau o staff at y gwersi a nodwyd gan yr Ymchwiliad. Mae'r papur hwn yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw.

2.4 Disgwylir i'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig gyhoeddi ei argymhellion ddiwedd y gwanwyn nesaf ac, yn ddi-os, byddant yn cwmpasu'r materion hyn.

## 3. Goblygiadau adnoddau

3.1 Nid oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau na staff yn deillio o'r papur hwn.

## 4. Risgiau

4.1 Nid oes unrhyw risgiau yn deillio o'r papur hwn, ond bydd angen i'r materion llawer mwy sy'n deillio o argymhellion yr Ymchwiliad gael eu hadlewyrchu yn ein cofrestrau risgiau, unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ar ei hymateb iddynt.

## 5. Cyfathrebu

5.1 Nid oes unrhyw risgiau sy'n galw am gyfathrebu.

## 6. Materion cydymffurfiaeth cyffredinol

6.1 Nid oes unrhyw faterion cydymffurfiaeth cyffredinol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-papur-eitem-6-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# 7. Argymhellion

7.1 Gwahoddir y Bwrdd i ystyried y materion a godwyd gan yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig a thystiolaeth yr Ysgrifennydd Parhaol ac i ystyried i ba raddau y mae'r materion hyn wedi'u hymgorffori yn Llywodraeth Cymru.

# Cyhoeddi

Dylid cyhoeddi'r papur hwn yn ei gyfanrwydd gan nad oes yr un eithriad yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gymwys. Mae tystiolaeth ysgrifenedig a llafar yr Ysgrifennydd Parhaol eisoes wedi'i chyhoeddi.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-bwrdd-llywodraeth-cymru-papur-eitem-6-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.